



## **POLISI MODEL CYFLOG ATHRAWON GWYNEDD 2015**

### **1.0 Rhagymadrodd**

1.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyflog athrawon. Cafodd ei datblygu i gydymffurfio â'r deddfwriaeth bresennol a gofynion y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) a bu ymgynghori yn ei chylch gyda'r undebau llafur cydnabyddedig. Bydd copi o'r polisi hwn yn cael ei anfon at yr holl staff a bydd copi o'r holl ddogfennau perthnasol ar gyflog ac amodau yn cael ei rhoi ar gael i'r staff gan yr ysgol.

### **2.0 Datganiad o Fwriad**

2.1 Bydd corff llywodraethol yr ysgol hon yn gweithredu gydag uniondeb, cyfrinachedd, gwrthrychedd a gonestrwydd er lles yr ysgol; byddant yn agored ynghylch penderfyniadau a wneir a'r camau a gymerir, a byddant yn barod i egluro penderfyniadau a gweithredoedd i unigolion mae hynny o ddiddordeb iddynt. Bydd ei gweithdrefnau ar gyfer pennu cyflog yn gyson ag egwyddorion bywyd cyhoeddus: gwrthrychedd, bod yn agored ac atebolrwydd.

### **3.0 Deddfwriaeth Cydraddoldeb**

3.1 **Bydd y corff llywodraethol yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ynghylch cydraddoldeb:**

- Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
- Rheolau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Llai Ffafirol) 2000
- Rheolau Gweithwyr Cyfnod Penodol (Atal Triniaeth Llai Ffafirol) 2002
- Rheolau Gweithwyr Asiantaeth 2010

3.1.1 Bydd y corff llywodraethol yn hyrwyddo cydraddoldeb mewn pob agwedd ar fywyd ysgol, yn enwedig ynghylch pob penderfyniad ar hysbysebu swyddi, penodi, dyrchafu a talu i staff, hyfforddiant a datblygiad staff.

3.1.2 Gweler 'dyletswyddau corff llywodraethol' (7.0) o ran monitro effaith y polisi hwn.

### **3.2 Cydraddoldeb a Thâl yn ôl Perfformiad**

3.2.1 Bydd y corff llywodraethol yn sicrhau bod ei brosesau yn agored, tryloyw a theg. Caiff pob penderfyniad ei gyfiawnhau'n wrthrychol. Gwneir addasiadau i gymryd amgylchiadau arbennig i ystyriaeth, e.e. absenoldeb mamolaeth neu seibiant salwch hir dymor. Bydd yr union addasiadau'n cael eu gwneud ar sail achos wrth achos, yn ddibynnol ar amgylchiadau'r athro unigol ac ar amgylchiadau'r ysgol.



#### 4.0 Swydd Ddisgrifiadau

4.1 Bydd y pennaeth yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn derbyn swydd ddisgrifiad yn unol â'r strwythur staffio y cytunwyd arno gan y corff llywodraethol. Gall swydd-ddisgrifiadau gael eu hadolygu o dro i dro, mewn ymgynghoriad â'r gweithiwr unigol sydd a wnelo â hynny, er mwyn gwneud newidiadau rhesymol yng ngoleuni anghenion newidiol yr ysgol. Bydd swydd ddisgrifiadau yn adnabod meysydd allweddol o gyfrifoldeb. Mewn achos ble caiff swydd-ddisgrifiad ei adolygu, ni ellir ei newid ond trwy gytundeb.

#### 5.0 Mynediad at Gofnodion

5.1 Bydd y pennaeth yn sicrhau y caiff aelodau unigol o'r staff fynediad rhesymol at eu cofnodion cyflogaeth.

#### 6.0 Gwerthuso

6.1 Bydd y corff llywodraethol yn cydymffurfio â Rheolau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 ynghylch arfarnu athrawon a polisi gwerthuso'r ysgol.

#### 7.0 Dyletswyddau'r Corff Llywodraethol

**Bydd y corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau i:**

- 7.1 **Athrawon:** fel a amlinellir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol (STPCD) ac Amodau Gwasanaeth ar gyfer Athrawon Ysgol yn Lloegr a Chymru (a elwir yn 'Llyfr Bwrgwyn').
- 7.2 **Staff Ategol:** Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflog ac Amodau Gwaith Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (Llyfr Gwyrdd) neu unrhyw system cyflog/graddio AALL
- 7.3 Bydd angen i'r corff llywodraethol ystyried unrhyw bolisi cyflog wedi ei ddiweddarau a bodloni eu hunain bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cysylltu gwerthusiad â chyflog, ac y gellir defnyddio hynny'n gyson a chyfiawnhau eu penderfyniadau ynghylch cyflog yn wrthrychol.
- 7.4 Bydd y corff llywodraethol yn sicrhau ei fod yn rhoi arian ar gael i gefnogi penderfyniadau ynghylch cyflog, yn unol â'r polisi cyflog hwn (gweler 'Gweithdrefnau' (12.0)) a cynllun gwariant yr ysgol.
- 7.5 Bydd y corff llywodraethol yn monitro canlyniadau'r penderfyniadau cyflog, gan sicrhau bod yr ysgol yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb.



## 8.0 Dyletswyddau'r Pennaeth

### Bydd y pennaeth:

- 8.1 yn datblygu trefniadau clir ar gyfer cysylltu gwerthusiad â cynnydd mewn cyflog ac ymgynghori â staff a cynrychiolwyr undebau ysgol ynghylch polisiau rheoli perfformiad a chyflog;
- 8.2 cyflwyno unrhyw bolisiau diweddaraf ynghylch rheoli perfformiad a chyflog i'r corff llywodraethol roi sêl bendith;
- 8.3 sicrhau bod trefniadau gwerthuso effeithiol mewn lle a bod unrhyw werthuswyr yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i ddefnyddio gweithdrefnau'n deg, a darparu hyfforddiant o'r fath, fel bo angen;
- 8.4 cyflwyno argymhellion cyflog i'r corff llywodraethol a sicrhau bod gan y corff llywodraethol wybodaeth ddigonol fel sail i wneud penderfyniadau ynghylch cyflog;
- 8.5 sicrhau bod gan athrawon wybodaeth ynghylch penderfyniadau a wnaed gan y corff llywodraethol, a'u hawl i apelio; ac y cedwir cofnodion ynghylch argymhellion a'r penderfyniadau a wnaed.

## 9.0 Dyletswyddau Athrawon

### Bydd athro yn:

- 9.1 cymryd rhan yn y gwerthusiad; mae hynny'n cynnwys gweithio gyda'r sawl sy'n eu gwerthuso i sicrhau bod tystiolaeth gadarn er mwyn gallu pennu cyflog blynyddol (gweler adran 'Gwerthuso' uchod);
- 9.2 cofnodi eu hamcanion a'u hadolygu gydol y broses gwerthuso;
- 9.3 cydrannu unrhyw dystiolaeth maent yn ei ystyried yn berthnasol gyda'r sawl sy'n eu gwerthuso;
- 9.4 cydweithredu â trefniadau ar gyfer cynnal adolygiad blynyddol o'u perfformiad.

## 10.0 Dyfarniadau Cyflog Dewisol

Caiff y meini prawf ar gyfer defnyddio dewisiadau cyflog eu hamlinellu yn y polisi hwn a gwneir dyfarniadau dewisol o gyflog ychwanegol yn unol â'r meini prawf hyn yn unig.

## 11.0 Gwarchodaeth

Ble mae pennu cyflog yn arwain at neu yn gallu arwain at ddechrau cyfnod o warchodaeth, bydd y corff llywodraethol yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol yr STPCD ac yn rhoi'r hysbysiad sydd ei angen cyn gynted a bo modd a dim hwyrach na mis ar ôl pennu.



## 12.0 Gweithdrefnau

- 12.1 Bydd y corff llywodraethol yn pennu'r gyllideb cyflog blynyddol ar argymhellion y pwyllgor cyflog, gan gymryd paragraff 19.1(e) y STPCD i ystyriaeth. Bydd y pennaeth yn cynghori mewn pwyllgor sy'n trafod cyflog er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.
- 12.2 Mae'r corff llywodraethol wedi dirprwyo ei bwerau cyflog i'r pwyllgor cyflog. Rhaid i unrhyw un a gyflogir i weithio yn yr ysgol, heblaw'r pennaeth, adael cyfarfod ble caiff cyflog neu werthusiad unrhyw weithiwr arall yn yr ysgol, ei ystyried. Rhaid i'r pennaeth adael y rhan hwnnw o'r cyfarfod ble caiff ei gyflog ef neu hi ei drafod. Rhaid i unigolyn mae hyn yn ymwneud ag ef/hi adael ble ceir gwrthdaro buddiannau neu unrhyw amheuaeth ynghylch ei allu ef/hi i weithredu'n ddi-duedd.
- 12.3 Ble mae'r pwyllgor cyflog wedi gwahodd cynrychiolydd o'r AALL i fynychu a cynghori ynghylch pennu cyflog y pennaeth, bydd yr unigolyn hwnnw yn gadael tra bod y pwyllgor yn penderfynu.
- 12.4 Bydd cylch gorchwyl y pwyllgor cyflog yn cael eu pennu o dro i dro gan y corff llywodraethol.
- 12.5 Y cylch gorchwyl presennol yw:
- 12.5.1 cyflawni amcanion polisi cyflog yr ysgol gyfan yn deg ac yn gyfartal;
  - 12.5.2 defnyddio'r meini prawf a osodwyd gan bolisi cyflog yr ysgol gyfan mewn pennu cyflog holl aelodau'r staff yn yr adolygiad blynyddol;
  - 12.5.3 dilyn pob dyletswydd statudol a chytundebol;
  - 12.5.4 cofnodi'n eglur y rhesymau dros bob penderfyniad a hysbysu ynghylch y penderfyniadau hynny yng nghyfarfod nesaf y corff llywodraethol llawn;
  - 12.5.5 argymhell i'r corff llywodraethol y gyllideb flynyddol sydd ei angen ar gyfer cyflog, gan gadw mewn cof yr angen i sicrhau bod arian ar gael i gefnogi cyflog dewisol;
  - 12.5.6 bod yn ymwybodol o ddatblygiadau perthnasol a cynghori'r corff llywodraethol pan mae angen diwygio polisi cyflog yr ysgol;
  - 12.5.7 cydweithio â'r pennaeth i sicrhau bod y corff llywodraethol yn cydymffurfio â'r Rheolau Gwerthuso 2011 (athrawon);
  - 12.5.8 adolygu'r polisi yn flynyddol, mewn ymgynghoriad â'r pennaeth, staff a cynrychiolwyr undebau llafur, a'i gyflwyno i'r Corff Llywodraethol i gael sêl bendith.
- 12.6 Bydd adroddiad y pwyllgor cyllid yn cael ei gynnwys yn adran gyfrinachol agenda'r corff llywodraethol a bydd naill ai'n cael ei dderbyn neu ei gyfeirio'n ôl. Ni ddigwydd cyfeirio'n ôl ond os yw'r pwyllgor wedi gorddefnyddio ei bwerau o dan y polisi.



### **13.0 Pennu cyflog yn flynyddol**

- 13.1 Bydd cyflogau'r holl athrawon, yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth)(iaid) a penaethiaid cynorthwyol yn cael eu hadolygu'n flynyddol i ddod i rym o 1 Medi. Bydd y corff llywodraethol yn cwblhau adolygiadau cyflog blynyddol athrawon erbyn 31 Hydref ac adolygiad cyflog blynyddol y pennaeth erbyn 31 Rhagfyr.
- 13.2 Gellir cynnal adolygiadau ar adegau eraill o'r flwyddyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau neu swydd ddisgrifiad sy'n arwain at newid o ran sut caiff cyflog unigolyn ei gyfrifo. Rhoddir datganiad ysgrifenedig yn dilyn unrhyw adolygiad a, ble mae'n berthnasol, rhoddir gwybodaeth ynghylch ar ba sail y gwnaed hynny.
- 13.3 Bydd yr ysgol yn defnyddio unrhyw ddyfarniadau cyflog cenedlaethol cytunedig wrth iddynt ddigwydd.

### **14.0 Hysbysu ynghylch pennu cyflog**

- 14.1 Bydd holl aelodau'r staff yn cael eu hysbysu ynghylch pennu cyflog gan y pennaeth yn ysgrifenedig yn unol â paragraff 3.4 o'r STPCD a bydd yn amlinellu pam y cymerwyd y penderfyniadau.
- 14.2 Bydd y pwyllgor cyflog yn hysbysu ynghylch penderfyniadau ar gyflog y pennaeth, yn ysgrifenedig, yn unol â paragraff 3.4 o'r STPCD.
- 14.3 Bydd cyfarwyddyd i ddiwygio cyflog o'r dyddiad perthnasol yn cael ei roi yn syth ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno apêl fynd heibio, neu'n syth ar ôl i apêl ddiweddu.

### **15.0 Gweithdrefn Apeliadau**

Mae gan y corff llywodraethol weithdrefn apeliadau o ran cyflog yn unol â darpariaethau paragraff 2.1(b) o'r STPCD. Caiff ei hamlinellu fel atodiad i'r polisi cyflog hwn (Atodiad 1).



## 16.0 Swyddi dysgu Arweinyddiaeth (pennaeth, dirprwy a phenaethiaid cynorthwyol)

Caiff yr ystod cyflog ar gyfer y pennaeth, dirprwy bennaeth (iaid) a phennaeth(iaid) cynorthwyol eu pennu yn unol â'r meini prawf a nodir yn STPCD 2015 ac yn sicrhau perthynoleddau cyflog teg.

### 16.1 Mae'r Corff Llywodraethol wedi pennu'r ystodau cyflog canlynol ar gyfer y pennaeth, dirprwy bennaeth (iaid) a phenaeth (iaid) cynorthwyol:

#### 16.1.1 Ystod cyflog pennaeth:

<b>L14</b>	<b>53,180</b>
------------	---------------

<b>Ystod Cyflog Grŵp Arweinyddiaeth 2015 Cymru a Lloegr (ac eithrio Ardal Llundain)</b>	
<b>Hicyn cyflog</b>	<b>Cyflog Blynyddol</b>
	<b>£</b>
<b>L1</b>	<b>38,598</b>
<b>L2</b>	<b>39,564</b>
<b>L3</b>	<b>40,552</b>
<b>L4</b>	<b>41,562</b>
<b>L5</b>	<b>42,597</b>
<b>L6</b>	<b>43,665</b>
<b>L7</b>	<b>44,841</b>
<b>L8</b>	<b>45,876</b>
<b>L9</b>	<b>47,021</b>
<b>L10</b>	<b>48,228</b>
<b>L11</b>	<b>49,481</b>
<b>L12</b>	<b>50,620</b>
<b>L13</b>	<b>51,886</b>
<b>L14</b>	<b>53,180</b>
<b>L15</b>	<b>54,503</b>
<b>L16</b>	<b>55,951</b>
<b>L17</b>	<b>57,237</b>
<b>L18*</b>	<b>58,096</b>
<b>L18</b>	<b>58,677</b>
<b>L19</b>	<b>60,131</b>
<b>L20</b>	<b>61,623</b>
<b>L21*</b>	<b>62,521</b>
<b>L21</b>	<b>63,147</b>
<b>L22</b>	<b>64,715</b>
<b>L23</b>	<b>66,318</b>
<b>L24*</b>	<b>67,290</b>
<b>L24</b>	<b>67,963</b>



L25	69,652
L26	71,375
L27*	72,419
L27	73,144
L28	74,958
L29	76,814
L30	78,726
L31*	79,872
L31	80,671
L32	82,676
L33	84,731
L34	86,825
L35*	88,102
L35	88,984
L36	91,187
L37	93,454
L38	95,766
L39*	97,128
L39	98,100
L40	100,548
L41	103,060
L42	105,642
L43*	107,210

\*Y pwyntiau yma dim ond i'w defnyddio ar gyfer penaethiaid ar frig yr amrediad grŵp ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014-15, h.y. dim codiad cyflog ar gyfer 2015-16.



## 17.0 Cyflog Pennaeth

### 17.1 Cyflog ar ei benodi

Ar gyfer penodiadau a wneir ar neu ar ôl 1 Medi 2013, bydd y corff llywodraethol yn pennu'r ystod cyflog i'w hysbysebu ac yn cytuno ar gyflog wrth benodi, gan gymryd i ystyriaeth rôl llawn y pennaeth ac yn unol â pharagraffau 11 a 6.2(e) a paragraffau 11 i 26 o arweiniad adran 3 o STPCD 2013:

- 17.1.1 bydd y pwyllgor cyflog yn adolygu grŵp ysgol y pennaeth ac Ystod Ysgol Unigol y Pennaeth (ISR) yn unol â paragraffau 7, 8 a 10 (ysgol gyffredin), neu paragraffau 7, 9 a 10 (ysgol arbennig) o STPCD 2013;
- 17.1.2 os cymer y pennaeth atebolrwydd parhaol am un neu ragor o ysgolion ychwanegol, bydd y pwyllgor cyflog yn gosod ISR yn unol â darpariaethau paragraffau 11.5 a 6.2(e) o STPCD 2013.
- 17.1.3 bydd y pwyllgor cyflog yn ystyried darpariaethau paragraff 11.3 o STPCD 2013 ac hefyd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw daliadau parhaol eraill a wneir i staff o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau caiff taliadau gwahaniaethol priodol eu creu a'u cynnal rhwng swyddi sy'n gwahaniaethu o ran cyfrifoldeb ac atebolrwydd;
- 17.1.4 bydd y pwyllgor cyflog yn defnyddio ei ddisgresiwn o dan paragraff 6.2(e) o STPCD 2013 a chyflogi ar unrhyw un o'r pedwar hicynd isaf ar yr ISR, er mwyn sicrhau y caiff yr ymgeisydd maent yn ei ffafrio ei benodi.
- 17.1.5 bydd y pwyllgor cyflogau yn ystyried defnyddio ei ddisgresiwn i ddyfarnu taliad dewisol o dan 12.3(b) o STPCD 2013 ble mae'r corff llywodraethol yn ystyried y cai'r ysgol anhawster i recriwtio i'r swydd pennaeth sy'n wag;
- 17.1.6 bydd y pwyllgor cyflogau yn ystyried yr angen i ddyfarnu unrhyw daliadau dewisol pellach i bennaeth yn unol â paragraff 12.1 i 12.5 o STPCD 2013;
- 17.1.7 bydd y pwyllgor cyflogau yn ystyried defnyddio ei ddisgresiwn, mewn amgylchiadau hollol eithriadol, i fynd dros y cyfyngiad o 25% ar daliadau disgresiwn, fel a amlinellir ym mharagraff 12.5 o STPCD 2013. Fodd bynnag, cyn cytuno i wneud hynny, bydd yn ceisio sicrhau cytundeb y corff llywodraethol fydd yn ei dro, yn ceisio cael cyngor annibynnol allanol cyn darparu cytundeb o'r fath.

### 17.2 Penaethiaid sydd mewn swyddi

Bydd y corff llywodraethol yn pennu cyflog pennaeth sydd mewn swydd yn unol â paragraff 6 o'r STPCD 2013.

- 17.2.1 bydd y pwyllgor cyflogau yn adolygu cyflog y pennaeth yn unol â paragraff 6.2(b) o'r STPCD 2013 ac yn dyfarnu hyd at ddau hicynd perfformiad ble caed perfformiad o ansawdd uchel parhaus mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol a chynnydd disgyblion gan ystyried canlyniadau'r gwerthusiad mwyaf diweddar a gynhaliwyd yn unol â Rheolau





Gwerthuso 2011 ac yn ddarostyngedig i'r safonau proffesiynol sy'n berthnasol i benaethiaid yng Nghymru sy'n cynnwys Y Safonau Athrawon sy'n Dysgu a'r Safonau Arweinyddiaeth fel y cânt eu rhestru yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif, 020/2011 Safonau Diwygiedig ar gyfer Ymarferwyr Addysg yng Nghymru. Rhaid ystyried a defnyddio'r rhain yng nghyd-destun Dogfen Arweiniol Llywodraeth Cymru Rhif. 074/2012.

- 17.2.2 gall y pwyllgor cyflogau bennu ISR y pennaeth, o fewn ystod grŵp yr ysgol, fel ar 1 Medi neu ar unrhyw adeg os ydynt yn ystyried bod angen gwneud hynny (paragraff 12 o arweiniad adran 3 o STPCD 2013);
- 17.2.3 os yw'r pwyllgor cyflogau yn penderfynu newid yr ISR, bydd yn pennu ISR y pennaeth o fewn ystod grŵp yr ysgol, yn unol â paragraff 11 a paragraffau 12 o arweiniad adran 3 o STPCD 2013;
- 17.2.4 os cymer y pennaeth atebolrwydd dros dro am un neu ragor o ysgolion ychwanegol, bydd y pwyllgor cyflogau yn ystyried dyfarnu taliad dewisol o dan paragraffau 12.2 a 12.3(d) o STPCD 2013.
- 17.2.5 gall y pwyllgor cyflogau yn ystyried defnyddio taliadau dewisol, yn unol â darpariaethau paragraffau 12.1 i 12.5 o STPCD 2013.
- 17.2.6 gall y pwyllgor cyflogau yn ystyried defnyddio ei ddisgresiwn, mewn amgylchiadau hollol eithriadol, i fynd dros y cyfyngiad o 25% ar daliadau dewisol, fel a amlinellir yn paragraff 12.5 o STPCD 2013. Fodd bynnag, cyn cytuno i wneud hynny, bydd yn ceisio sicrhau cytundeb y corff llywodraethol a fydd yn ei dro yn ceisio cyngor annibynnol allanol cyn darparu cytundeb o'r fath.
- 17.2.7 yn unol â paragraff 6.2.(d) o'r STPCD 2013 ac eithrio i'r graddau y mae angen symud i fyny'r golofn gyflog er mwyn sicrhau bod cyflog y pennaeth yn gyfwerth ag isafswm yr ystod ysgol unigol, ni wnaiff y pwyllgor cyflog godi cyflog pennaeth yn fwy na dau bwynt yn ystod un flwyddyn ysgol.

## **18.0 Dirprwy a Phenaethiaid Cynorthwyol**

### **18.1 Tâl wrth benodi**

Bydd y corff llywodraethol, pan fo angen penodi, yn pennu'r ystod cyflog i'w hysbysebu ac yn cytuno ar dâl wrth benodi fel a ganlyn:

- 18.1.1 bydd y pwyllgor cyflogau yn pennu ystod cyflog yn unol â paragraff 14 o'r STPCD 2013 a strwythur staffio'r ysgol, gan gymryd i ystyriaeth rôl y dirprwy/pennaeth cynorthwyol a amlinellir yn paragraff 49 o'r STPCD 2013;
- 18.1.2 bydd y pwyllgor cyflogau yn cofnodi ei resymau dros bennu ystod cyflog y dirprwy/pennaeth cynorthwyol, yn unol â paragraff 29 o ganllawiau adran 3 o STPCD 2013;



18.1.3 gall y pwyllgor cyflogau yn defnyddio ei ddisgresiwn o dan paragraff 13.3 o'r STPCD 2013, ac yn talu unrhyw un o'r tri hicy'n isaf ar ystod cyflog y dirprwy bennaeth, er mwyn sicrhau penodiad yr ymgeisydd sydd orau ganddynt, ac i gynnal gwahaniaethau rhwng swyddi.

18.1.4 gall y pwyllgor cyflogau yn defnyddio ei ddisgresiwn o dan paragraff 41 o'r STPCD 2013 ble ceir problemau recriwtio.

## **18.2 Dirprwyon/penaethiaid cynorthwyol**

18.2.1 bydd y pwyllgor cyflogau yn adolygu cyflog yn unol â paragraffau 13.1 neu 13.2 o STPCD 2013 a dyfarnu hyd at ddau hicy'n ble caed perfformiad o ansawdd uchel parhaus mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol a chynnydd disgyblion gan ystyried canlyniadau'r gwerthusiad diweddar ac yn ddarostyngedig i'r safonau proffesiynol sy'n berthnasol i ddirprwy bennaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol yng Nghymru fel y cânt eu rhestru yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 020/2011 Safonau Diwygiedig ar gyfer Ymarferwyr Addysg yng Nghymru. Rhaid ystyried a defnyddio'r rhain yng nghyd-destun Dogfen Arweiniol Llywodraeth Cymru Rhif. 073/2012 Rheoli Perfformiad ar gyfer Athrawon.

18.2.2 bydd y pwyllgor cyflogau yn adolygu ac, os oes angen, yn ail-bennu ystod cyflog y dirprwy/pennaeth cynorthwyol ble bu newid sylweddol yng nghyfrifoldebau'r dirprwy/pennaeth cynorthwyol (paragraff 29 arweiniad adran 3 o STPCD 2013);

18.2.3 gall y pwyllgor cyflogau bennu ystod cyflog y dirprwy bennaeth ar unrhyw adeg yn unol â paragraff 29 o ganllawiau adran 3 o STPCD 2013 yn unol â darpariaethau dewisol y paragraff hwnnw ac er mwyn cynnal gwahaniaethau.

18.2.4 yn unol â pharagraff 13.2.(d) o'r STPCD 2013 ac eithrio i'r graddau y mae angen symud i fyny'r golofn gyflog er mwyn sicrhau bod cyflog y dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn gyfwerth ag isafswm ystod cyflog y dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol perthnasol, ni wnaiff y pwyllgor cyflog godi cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn fwy na dau bwynt yn ystod un flwyddyn ysgol.

## **19.0 Cynnydd o ran cyflog Athrawon sy'n arwain (Pennaeth, dirprwy ac athrawon cynorthwyol)**

Dyfernir hicy'nau cyflog ychwanegol ar y raddfa i'r pennaeth, dirprwy bennaeth(iaid) a phennaeth(iaid) cynorthwyol yn unol â darpariaethau STPCD 2013 h.y. rhaid iddynt arddangos ansawdd uchel o berfformiad parhaus o ran arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol ac o ran cynnydd disgyblion.

## **20.0 Lwfansau Dros dro**

Mae lwfansau dros dro yn daladwy i athrawon y cafodd dyletswyddau eu pennu iddynt ac sy'n cyflawni dyletswyddau pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn unol â paragraff 29 o'r STPCD 2013.



- 20.1 Bydd y pwyllgor cyflogau, o fewn cyfnod o bedair wythnos i'r gweithiwr ddechrau cyflawni'r dyletswyddau dros dro, yn pennu prun ai peidio y telir lwfans i ddeilydd y swydd dros dro.
- 20.2 Os ceir absenoldeb sydd wedi ei fwriadu a maith, cytunir ar lwfans dros dro ymlaen llaw a chaiff ei dalu o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.
- 20.3 Bydd unrhyw athro sy'n cytuno i gyflawni dyletswyddau pennaeth, dirprwy bennaeth, neu bennaeth cynorthwyol, am gyfnod o bedair wythnos neu fwy, yn cael ei dalu ar hicyn priodol o ISR y pennaeth, ystod dirprwy bennaeth neu ystod pennaeth cynorthwyol, fel y caiff ei bennu gan y pwyllgor cyflogau. Caiff tâl ei ôl-ddyddio i pan ddechreuwyd cyflawni'r dyletswyddau.



## 21.0 ATHRAWON DOSBARTH

### 21.1 Talu ar benodiad

Bydd y Corff Llywodraethol yn pennu'r ystod cyflog ar gyfer swydd wag cyn ei hysbysebu. Ar benodi, bydd yn pennu'r cyflog cychwynnol o fewn yr ystod hwnnw a gynhigir i'r ymgeisydd llwyddiannus.

21.2 Wrth bennu, bydd y Corff Llywodraethol yn defnyddio'r polisi canlynol:

### 21.3 Swyddi Athrawon dosbarth

Mae'r Corff Llywodraethol wedi pennu'r graddfeydd cyflog canlynol

<b>Graddfa Gyflog Athrawon Dosbarth Prif Raddfa 2015 [Cymru a Lloegr (ac eithrio Ardal Llundain)]</b>	
<b>Hicyn cyflog</b>	<b>Cyflog Blynyddol</b>
	<b>£</b>
<b>M1</b>	<b>22,244</b>
<b>M2</b>	<b>24,002</b>
<b>M3</b>	<b>25,932</b>
<b>M4</b>	<b>27,927</b>
<b>M5</b>	<b>30,128</b>
<b>M6</b>	<b>32,831</b>

<b>Graddfa Gyflog ar gyfer Athrawon Ôl-drothwy 2015 [Cymru a Lloegr (ac eithrio Ardal Llundain)]</b>	
<b>Hicyn cyflog</b>	<b>Cyflog Blynyddol</b>
	<b>£</b>
<b>U1</b>	<b>35,218</b>
<b>U2</b>	<b>36,523</b>
<b>U3</b>	<b>37,871</b>

21.4 Bydd y Corff Llywodraethol yn datgan na fydd yn cyfyngu ar yr ystod cyflog a hysbysebir ar gyfer neu gyflog cychwynnol a rhagolygon cynnydd o ran cyflog sydd ar gael ar gyfer swyddi athrawon dosbarth, ac eithrio isafswm y Prif Ystod Cyflog ac uchafswm yr Ystod Cyflog Uchaf.

21.5 Bydd y Corff Llywodraethol yn defnyddio'r egwyddor o hygludedd cyflog wrth bennu cyflog pawb sydd newydd eu penodi

21.6 Wrth bennu cyflog cychwynnol athro/athrawes dosbarth sy'n dechrau yn eu swydd gyntaf fel athro/athrawes dosbarth sydd wedi cymhwyso, bydd y Corff Llywodraethol yn talu i'r athro/athrawes ar y Prif Ystod Cyflog a bydd yn dyrannu hicynnau graddfa cyflog, fel lleiafswm, ar y sail ganlynol:

21.6.1 un hicyn am bob blwyddyn o wasanaeth fel athro cymwys mewn ysgol wladol, Academi, Coleg Technoleg dinesig neu ysgol annibynnol;



- 21.6.2 un hicyn am bob blwyddyn o wasanaeth fel athro cymwys mewn addysg uwch neu addysg bellach yn cynnwys colegau ble ceir chweched dosbarth, neu mewn gwledydd eraill heblaw Cymru a Lloegr mewn ysgol yn sector wladol y wlad honno;
- 21.6.3 un hicyn am bob tair blynedd o brofiad ble nad ydynt yn dysgu yn gweithio mewn maes perthnasol, yn cynnwys hyfforddiant ym maes diwydiant neu faes masnachol, amser a dreuliwyd yn gweithio mewn galwedigaeth sy'n berthnasol i waith yr athro yn yr ysgol, a phrofiad gyda phlant/pobl ifanc;
- 21.6.4 un hicyn ar gyfer pob tair blynedd o brofiad perthnasol ble ceir tâl neu na cheir tâl.
- 21.7 Bydd y Corff Llywodraethol hefyd yn ystyried dyrannu hiciau graddfa ychwanegol ar y sail uchod i athrawon eraill y cânt eu penodi i'r Prif Ystodau Cyflog neu'r Ystodau Cyflog Uwch.
- 21.8 Wrth bennu'r cyflog cychwynnol ar gyfer athro/athrawes dosbarth sydd wedi **gweithio o'r blaen mewn ysgol wladol AALL neu academi yng Nghymru a Lloegr**, bydd y Corff Llywodraethol yn talu i'r athro/athrawes ar y Prif Ystod Cyflog neu'r Ystod Cyflog Uchaf ar hicyn ar y raddfa sydd o leiaf yn cynnal hawl cyflog blaenorol yr athro ynghyd ag unrhyw godiad cyflog y buasent wedi ei dderbyn pe baent wedi aros yn eu swydd flaenorol.
- 21.9 Bydd y Corff Llywodraethol hefyd yn talu i athrawon dosbarth sydd yn "athrawon ôl-trothwy" yn unol â diffiniad STPCD 2012 o rai sydd ar yr Ystod Cyflog Uchaf.
- 22.0 Cynnydd o ran cyflog**
- 22.1 Athrawon dosbarth ar y Prif Raddfa Cyflog**
- 22.1.1 Bydd athrawon dosbarth yn derbyn cynnydd o ran cyflog ar y Prif Ystod Cyflog yn dilyn pob adolygiad rheolaeth/gwerthusiad perfformiad sy'n dangos llwyddiant.
- 22.1.2 Bernir bod adolygiadau'n llwyddiannus oni fynegwyd cryn bryder yn ysgrifenedig ynghylch safonau perfformiad gyda'r athro yn ystod y cylch rheoli/gwerthusiad perfformiad blynyddol ac na chaed gwelliant digonol erbyn i'r broses ddod i ben, er gwaethaf cefnogaeth gan yr ysgol.
- 22.1.3 Bydd athrawon dosbarth ar eu blwyddyn anwytho yn derbyn codiad cyflog ar ôl iddynt gwblhau anwythiad yn llwyddiannus.
- 22.2 Athrawon dosbarth ar yr Ystod Cyflog Uchaf**
- 22.2.1 Bydd athrawon dosbarth yn derbyn codiad cyflog ar yr Ystod Cyflog Uchaf yn dilyn dau adolygiad rheolaeth/gwerthuso sy'n dangos perfformiad llwyddiannus.



22.2.2 Bernir bod adolygiadau'n llwyddiannus oni fynegwyd cryn bryderon yn ysgrifenedig ynghylch safonau perfformiad gyda'r athro yn ystod y cylch rheoli perfformiad/gwerthusiad blynyddol ac na chaed gwelliant digonol erbyn i'r broses hon ddod i ben, er gwaethaf cefnogaeth gan yr ysgol.

## **23.0 Symud i'r Ystod Cyflog Uchaf**

### **23.1 Ceisiadau a Tystiolaeth**

Caiff Athrawon Cymwysedig (*Qualified Teachers*) sydd yn gymwys wneud cais i gael eu talu ar yr ystod cyflog uchaf, ac asesir unrhyw gais yn unol â'r polisi hwn.

23.1.1 Yr athro/athrawes sy'n gyfrifol am benderfynu prun ai peidio maent yn dymuno gwneud cais i gael eu talu ar yr Ystod Cyflog Uwch.

23.1.2 Bydd athrawon fel arfer yn gwneud cais i dderbyn codiad cyflog i'r Ystod Cyflog Uchaf ar ôl iddynt gyrraedd M6 ar y Prif Ystod Cyflog.

23.1.3 Bydd y pennaeth yn hysbysu'r holl athrawon ar Hicyn Graddfa 6 o'r Prif Ystod Cyflog ar ddechrau pob blwyddyn ysgol o'u hawl i wneud cais am asesiad.

23.1.4 Gellir cyflwyno cais unwaith y flwyddyn.

23.1.5 Yn y cyfarfod cynllunio mae'n ofynnol i'r sawl sy'n gwerthuso a'r sawl sy'n cael ei werthuso, gymryd i ystyriaeth unrhyw feini prawf perthnasol ynghylch cynnydd mewn cyflog.

23.1.6 Dylid cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen briodol yn dilyn y cyfarfod adolygu.

23.1.7 Bydd dyfarniadau'n seiliedig ar dystiolaeth o reoli perfformiad ac ar unrhyw dystiolaeth ychwanegol berthnasol y gall yr athro/athrawes ddewis ei rhoi.

23.1.8 Os caiff athro/athrawes ei chyflogi ar yr un pryd mewn ysgol(ion) eraill, gallant gyflwyno ceisiadau ar wahân os dymunant wneud cais i gael eu talu ar yr Ystod Cyflog Uwch yn yr ysgol honno neu ysgolion eraill. Ni fydd yr ysgol hon yn rhwym i unrhyw benderfyniad cyflog a wneir gan ysgol arall.

### **23.2 Yr Asesiad**

23.2.1 Bydd ffurflen gais gan athro/athrawes sydd yn gymwys yn cael sêl bendith ble mae'r Corff Llywodraethol yn fodlon bod:



- 23.2.1a yr athro/athrawes yn gymwys iawn mewn pob elfen o'r safonau perthnasol (sef y 'Safonau Athro sy'n Dysgu' (Cymru): Atodiad 1, STPCD 2013) (yn cael eu hystyried a'u defnyddio yng nghyd-destun Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 73/2012); a
- 23.2.1b bod yr athro/athrawes wedi cael llwyddiannau ac wedi gwneud cyfraniadau sylweddol a pharhaus tuag at yr ysgol.
- 23.2.2 At ddibenion y polisi cyflog hwn, bydd y Corff Llywodraethol yn fodlon bod yr athro/athrawes wedi cwrdd â disgwyliadau o ran cael codiad cyflog i'r Ystod Cyflog Uchaf ble cafodd y meini prawf Cyflog Uchaf (gweler **Atodiad 2**) eu cwrdd yn ôl tystiolaeth dau adolygiad rheoli perfformiad/gwerthuso llwyddiannus a dilynol.
- 23.2.3 Wrth benderfynu, bydd y Corff Llywodraethol yn ystyried y ddau adolygiad diweddaraf ynghylch rheoli perfformiad/gwerthuso. Ystyrir bod adolygiadau'n llwyddiannus oni fynegwyd cryn bryderon yn ysgrifenedig ynghylch safonau perfformiad gyda'r athro/athrawes yn ystod y cylch rheoli perfformiad/gwerthusiad blynyddol ac na chaed gwelliant digonol erbyn i'r broses hon ddod i ben, er gwaethaf cefnogaeth gan yr ysgol.

### 23.3 Prosesau a gweithdrefnau

- 23.3.1 Cynhelir yr asesiad o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y cais neu derfyn y broses rheoli perfformiad/gwerthuso, prun bynnag sy'n digwydd olaf.
- 23.3.2 Os ydynt yn llwyddiannus, bydd ymgeiswyr yn symud i'r Ystod Cyflog Uchaf o'r 1af Medi blaenorol a chânt eu gosod ar hicyn 1 o'r raddfa cyflog honno.
- 23.3.3 Os ydynt yn aflwyddiannus, rhoddir adborth ysgrifenedig gan y pennaeth cyn gynted a bo modd ac o leiaf o fewn 5 diwrnod gwaith o'r penderfyniad; ac yn egluro'n llawn y penderfyniad a'r trefniadau apeliadau sydd ar gael i'r athro/athrawes. Bydd unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â symud yr athro/athrawes i'r Ystod Cyflog Uchaf yn cael ei glywed dan drefniadau Gweithdrefn Gwrandawiaidau ac Apeliadau Cyflog yr ysgol (gweler Atodiad 1).



## 24.0 Athrawon heb gymhwyso

24.1 Mae'r Corff Llywodraethol wedi pennu'r raddfa cyflog ganlynol ar gyfer athrawon nad ydynt wedi cymhwyso a gyflogir mewn swyddi athrawon dosbarth:

<b>Graddfa Gyflog Athrawon Heb Gymhwyso 2015 [Cymru a Lloegr (ac eithrio Ardal Llundain)]</b>	
<b>Hicyn cyflog</b>	<b>Cyflog Blynnyddol</b>
	<b>£</b>
<b>1</b>	<b>16,298</b>
<b>2</b>	<b>18,194</b>
<b>3</b>	<b>20,088</b>
<b>4</b>	<b>21,984</b>
<b>5</b>	<b>23,881</b>
<b>6</b>	<b>25,776</b>

## 24.2 Cyflog ar gael eu penodi

24.2.1 Bydd y pwyllgor cyflogau yn talu i unrhyw athro nad ydyw wedi cymhwyso yn unol â'r tabl uchod

24.2.2 Bydd y pwyllgor cyflogau yn pennu ble bydd athro nad yw wedi cymhwyso yn cychwyn ar y raddfa, gan ystyried unrhyw gymwysterau neu brofiad y gall bod ganddi/ganddo, maent yn ei ystyried o werth.

24.2.3 Bydd y pwyllgor cyflogau yn ystyried prun a yw'n dymuno talu lwfans ychwanegol, yn unol â paragraff 22 o'r STPCD.

## 24.3 Codiad cyflog

24.3.1 Bydd athrawon dosbarth nad ydynt wedi cymhwyso yn derbyn codiad cyflog ar eu graddfa cyflog yn dilyn pob adolygiad rheoli perfformiad/gwerthusiad llwyddiannus.

24.3.2 Bernir bod adolygiadau'n llwyddiannus oni fynegwyd cryn bryderon yn ysgrifenedig ynghylch safonau perfformiad gyda'r athro/athrawes yn ystod y cylch rheoli perfformiad/gwerthusiad blynnyddol ac na chaed gwelliant digonol erbyn i'r broses ddod i ben, er gwaethaf cefnogaeth gan yr ysgol.





## **25.0 Gweithwyr Rhan Amser**

- 25.1 Athrawon:** Bydd y corff llywodraethol yn defnyddio darpariaethau'r STPCD mewn perthynas a chyflog ac amser gweithio athrawon rhan amser, yn unol â pharagraffau 42 a 43 a 53.1-53.12, a pharagraffau 39-46 ac 79-87 o arweiniad adran 3.
- 25.2 Holl staff:** Bydd y pennaeth a'r corff llywodraethol yn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw weithiwr rhan amser o gymharu a rhywun sy'n gweithio'n llawn amser.

## **26.0 Athrawon a gyflogir ar sail byr rybudd**

Caiff athrawon o'r fath eu talu yn unol â paragraff 44 o'r STPCD.

## **27.0 Staff Ategol**

- 27.1 Mae'r pwyllgor cyflogau yn nodi ei bwerau i bennu cyflog staff ategol yn unol â paragraff 15 [neu 27] o Reoliadau Staffio Ysgolion Gwladol (Cymru) 2006.
- 27.2 Bydd y pwyllgor cyflogau yn pennu graddfa cyflog staff ategol ar eu penodiad yn unol â graddfa graddfeydd, sydd ar hyn o bryd yn berthnasol o ran cyflogaeth â'r AALL.



## 28.0 Lwfansau a Taliadau Dewisol

### 28.1 Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD)

28.1.1 Mae'r Corff Llywodraethol yn talu taliadau CAD 1 a 2 i athrawon fel a ddynodir yn y strwythur staffio atodedig, yn unol â'r ystodau cyflog a nodir yn STPCD 2013 fel ag y caiff ei ddiweddarau o dro i dro a bydd y lefelau a'r gwerthoedd canlynol yn berthnasol:

Sioned Parry CAD 2C

#### 28.1.2 CAD 1:

CAD 1B	£7,546
CAD 1A	£12,770

#### 28.1.3 CAD 2:

CAD 2C	£2,613
CAD 2B	£4,354
CAD 2A	£6,386

28.2 Gall y pwyllgor cyflogau ddyfarnu CAD i athro dosbarth yn unol â pharagraff 20 o'r STPCD a pharagraffau 47-54 o arweiniad adran 3.

28.3 Yn neilltuol, disgwylir i athrawon gyfrannu ar lafar ac yn ysgrifenedig fel bo'n briodol, i ddatblygiad cwricwlaidd trwy gyd-rannu eu harbenigedd proffesiynol gyda cydweithwyr a chynghori ynghylch arfer effeithiol. Nid yw hynny'n golygu y disgwylir iddynt fod yn gyfrifol am, a bod yn atebol, am faes pwnc na rheoli athrawon eraill heb dderbyn tâl ychwanegol priodol. Dylai cyfrifoldebau o'r math hwn fod yn rhan o swydd sydd yn y grŵp arweinyddiaeth neu yn gysylltiedig â swydd sy'n denu CAD1 neu CAD2 ar y sail a amlinellir ym mharagraff 20 o'r STPCD.

28.4 Dyfernir CAD 1 neu 2 am gyfrifoldeb ychwanegol wedi ei ddiffinio'n eglur a pharhaus yng nghyd-destun strwythur staffio'r ysgol at ddiben trosglwyddo'n barhaus addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Caiff pob swydd ddisgrifiad eu hadolygu'n rheolaidd a gwneir yn eglur, os yn berthnasol, y cyfrifoldebau y dyfernir y CAD amdano, gan gymryd i ystyriaeth y meini prawf a'r ffactorau a amlinellir ym mharagraff 20 o'r STPCD, sef:

- (a) yn hoelio sylw ar addysgu a dysgu;
- (b) bod angen defnyddio sgiliau a barn broffesiynol athro;
- (c) bod angen i'r athro arwain, rheoli a datblygu pwnc neu faes cwricwlwm; neu arwain a rheoli datblygiad disgybl ar draws y cwricwlwm;
- (ch) cael effaith ar gynnydd addysgol disgyblion heblaw'r dosbarthiadau neu'r grwpiau o ddisgyblion mae'r athro'n gyfrifol amdanynt; ac yn
- (d) golygu arwain, datblygu a hyrwyddo arfer addysgu staff eraill.

28.5 Gall y pwyllgor cyflogau ddyfarnu CAD 3 o rhwng £517 a £2,577 ar gyfer prosiectau gwella ysgol ag iddynt gyfyngiadau amser eglur, neu gyfrifoldebau unwaith yn unig sy'n cael eu gyrru'n allanol fel a



amlinellir ym mharagraff 20.3. Bydd y corff llywodraethol yn hysbysebu'r swydd yn fewnol ac yn amlinellu'n ysgrifenedig i'r athro hyd y cyfnod penodol, a thelir y dyfarniad mewn rhan-daliadau misol. Ni cheir gwarchodaeth o ran dyfarnu CAD3.

28.5.1 Dyfernir CAD3 mewn lluosrifau o £515

28.5.2 Bydd llywodraethwyr yn sicrhau bod CAD3 o werth cyfartal yn cael eu dyfarnu am dasgau o'r un pwysau a chyfrifoldeb.

28.5.3 Er na all athro/athrawes feddu ar CAD1 a CAD2 ar yr un pryd, gall athro sydd yn derbyn naill ai CAD1 neu CAD2 hefyd feddu ar CAD3 cyfredol.

28.5.4 Dydy'r egwyddor o dâl pro rata ddim yn gymwys i athrawon rhan amser sy'n derbyn taliadau CAD3.

## 29.0 Lwfansau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

29.1 Bydd y Corff Llywodraethol yn dyfarnu lwfansau AAA yn unol â'r meini prawf a'r darpariaethau a amlinellir yn STPCD 2015 ym mharagraff 21 a pharagraffau 57 i 59 o arweiniad adran 3.

29.2 Mae'r term 'Sylweddol' (fel a nodir ym mharagraff 21.2(d)(i) o STPCD 2015) yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at ddosbarthiadau ble mae dros 50% o ddisgyblion ar ddatganiad a ble mae dosbarthiadau o'r fath yn cymryd dros 50% o amserlen yr athro.

29.3 Bydd y pwyllgor cyflogau yn dyfarnu lwfans AAA gwerth ar y pryd ar ystod o rhwng £2,064 a £4,075 i unrhyw athro dosbarth sy'n cwrdd â'r meini prawf a amlinellir yn paragraff 21 o'r STPCD.

29.4 Gwerth lwfansau AAA a delir yn yr ysgol fydd:  
*[rhowch werth ar y pryd lwfansau AAA a delir yn yr ysgol]*



### **30.0 Taliadau Ychwanegol**

- 30.1 Yn unol â paragraff 26 o'r STPCD a pharagraffau 60-69 o arweiniad adran 3, gall y corff perthnasol wneud taliadau fel maent yn barnu'n briodol i athro, yn cynnwys pennaeth o ran:
- 30.1.1 datblygiad proffesiynol parhaus a ymgymerir tu allan i'r diwrnod ysgol;
  - 30.1.2 gweithgareddau'n ymwneud â darparu hyfforddiant cychwynnol athro fel rhan o rediad arferol yr ysgol;
  - 30.1.3 cymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu tu allan i oriau ysgol a gytunir rhwng yr athro a'r pennaeth neu, yn achos y pennaeth, rhwng y pennaeth a'r corff perthnasol;
  - 30.1.4 cyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol oherwydd, neu mewn perthynas â, darpariaethau'r gwasanaethau gan y pennaeth yn ymwneud â codi safonau addysgol mewn un neu ragor o ysgolion ychwanegol.
- 30.2 Bydd y Corff Llywodraethol yn gwneud taliadau ychwanegol i bob athro (yn cynnwys y pennaeth) sy'n cytuno i ymgymryd â gweithgareddau o'r fath. Caiff taliadau ychwanegol eu cyfrifo ar raddfa dyddiol neu fesul awr gan gyfeirio at sefyllfa hycyn cyflog pob athro neu, ble bo'n briodol, ac yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Cyflogau, ar lefel uwch sy'n adlewyrchu cyfrifoldeb a maint yr ymrwymiad.
- 30.3 Mae'r Corff Llywodraethol yn cydnabod bod gweithgareddau o'r fath yn hollol wirfoddol ac y bydd ymrwymadau rhai athrawon yn ei gwneud yn anodd iddynt ymgymryd â gweithgareddau o'r fath. Ble na all athrawon fynychu CPD a drefnir tu allan i'r diwrnod ysgol, bydd yr ysgol yn ceisio cynnig trefniadau hyfforddi eraill addas o fewn amser cyfeiriedig yn unol â'i ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal.

### **31.0 Buddion Anogaeth Recriwtio a Cadw**

- 31.1 Gall y corff llywodraethol ddyfarnu taliadau lwmp swm, taliadau cyfnodol, neu ddarparu cymorth ariannol arall, cefnogaeth neu fuddion ar gyfer anogaeth recriwtio neu gadw (paragraff 27 o'r STPCD a pharagraffau 71-72 o'r canllawiau adran 3).
- 31.2 Bydd y pwyllgor cyflogau yn ystyried defnyddio ei bwerau o dan paragraff 27 o'r STPCD ble maent yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn recriwtio neu gadw staff perthnasol. Bydd yn egluro ar y cychwyn, yn ysgrifenedig, faint y disgwylir i anogaeth neu fudd o'r fath bara, a'r dyddiad adolygu y gall yr anogaeth gael ei ddiweddu ar ôl hynny.
- 31.3 Er hynny, bydd y corff llywodraethol yn cynnal adolygiad ffurfiol blynyddol o bob dyfarniad o'r fath.
- 31.4 Mewn perthynas â phennaeth, bydd unrhyw 'daliadau ychwanegol' o dan yr adran hon, yn rhan o'r cyfyngiad o 25% ar ddefnyddio pob dewisiad, onid yw'r corff llywodraethol yn dewis defnyddio'r



dewisiad 'amgylchiadau hollol eithriadol'. Ni fydd y corff llywodraethol yn dyfarnu taliad recriwtio neu gadw o dan paragraff 41 o STPCD 2013 os ydynt eisoes wedi gwneud dyfarniad o dan paragraff 12.3(c) o STPCD 2013 neu wedi cymryd rheswm o'r fath (recriwtio neu gadw) i ystyriaeth wrth bennu'r ISR o dan ddogfen gynharach (paragraff 12.1 o'r STPCD 2013).

### **32.0 Dyletswyddau Preswyl**

Bydd y Corff Llywodraethol yn gwneud taliadau o ran dyletswyddau preswyl yn unol â cytundeb cenedlaethol Cyd Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Athrawon mewn Sefydliadau Preswyl.

### **33.0 Honoraria**

Ni fydd y Corff Llywodraethol yn talu unrhyw gydnabyddiaeth i unrhyw aelod o'r staff dysgu am gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol fel athro, gan gydnabod na cheir darpariaeth o fewn STPCD 2015 ar gyfer talu arian ychwanegol neu gydnabyddiaeth o dan unrhyw amgylchiadau.

### **34.0 Trefniadau Aberthu Cyflog**

Ble mae'r cyflogwr yn gweithredu trefniant aberthu cyflog, gall athro gymryd rhan mewn unrhyw drefniant a chaiff ei gyflog crynswth ei docio yn unol â hynny, yn unol â darpariaethau paragraff 29 o'r STPCD.

### **35.0 Swyddi Ymarferwyr Arweiniol**

Mae'r Corff Llywodraethol wedi penderfynu peidio ag apwyntio athrawon i swyddi ymarferwyr arweiniol. Bydd y Corff Llywodraethol yn adolygu'r penderfyniad hwn yn flynyddol.

<b>Mabwysiadwyd y polisi ar:</b>	
<b>Llofnod y Cadeirydd:</b>	
<b>Dyddiad Cynnal yr Adolygiad Nesaf:</b>	



## Atodiad 1

### MODEL GWEITHDREFN GWRANDAWIADAU AC APELIADAU CYFLOG

#### 1.0 Cam Un – y Gwrandawriad Cyflog

- 1.1 Fel rhan o'r broses pennu cyflog, bydd y sawl sy'n gwerthuso yn gwneud argymhelliad i'r pennaeth fel sy'n ofynnol dan y broses Rheoli Perfformiad. Bydd y pennaeth yna'n gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Cyflogau.
- 1.2 Wrth bennu cyflog athro/athrawes, bydd y pwyllgor cyflogau yn ysgrifennu at yr athro/athrawes i'w hysbysu o'r penderfyniad, y rhesymau drosto a bydd, ar yr un pryd, yn cadarnhau eu hawl i apelio yn erbyn y pwyllgor cyflogau a'u hawl i gael eu cynrychioli.
- 1.3 Os yw'r athro/athrawes yn dymuno apelio yn erbyn y penderfyniad, rhaid iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig i'r pwyllgor cyflogau, fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith ysgol, neu o fewn graddfa amser a gyd-gytunwyd. Rhaid i'r apêl gynnwys datganiad, sy'n cynnwys manylion digonol, ar ba sail y caiff ei chyflwyno. Os ceir apêl cychwynnol, rhaid i'r pwyllgor cyflogau yna wneud trefniadau i gwrdd â'r athro i glywed yr apeliadau. Dylid hefyd gwahodd y pennaeth a'r sawl sy'n gwerthuso (os yw'n rhywun arall heblaw'r pennaeth) i'r cyfarfod, fel tystion, i egluro ar ba sail y gwnaed yr argymhelliad gwreiddiol.
- 1.4 Caiff pob plaid gyfle i ofyn cwestiynau yn dilyn y cyflwyno achos/apeliadau.
- 1.5 Bydd y pwyllgor cyflogau yn ail-ystyried y penderfyniad yn gyfrinachol ac yn ysgrifennu at yr athro/athrawes i'w hysbysu o ganlyniad yr adolygiad ac o hawl yr athro/athrawes i apelio at Bwyllgor Apêl y Corff Llywodraethol a'u hawl i gael eu cynrychioli.
- 1.6 Os dymuna'r athro/athrawes ddefnyddio eu hawl i apelio, rhaid iddynt ysgrifennu at Glerc y Corff Llywodraethol cyn gynted a bo modd, a gwneud hynny fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith ysgol o hysbysiad y penderfyniad, gan roi datganiad ar ba sail y cyflwynir yr apêl a manylion digonol o'r ffeithiau byddant yn dibynnu arnynt.
- 1.7 Yna gelwir i rym Ail Gam y Broses Gwrandawriadau ac Apeliadau Cyflog.

#### 2.0 Cam Dau – yr Apêl

- 2.1 Ar ôl derbyn yr apêl ysgrifenedig, bydd Clerc y Corff Llywodraethol yn sefydlu Pwyllgor Apêl a ddylai gynnwys tri llywodraethwr, nad yw'r un ohonynt yn cael eu cyflogi yn yr ysgol neu wedi cymryd rhan o'r blaen yn y broses berthnasol ar gyfer pennu cyflogau ac yn trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Apeliadau cyn gynted a bo modd a dim hwyrach nac 20 diwrnod gwaith ysgol o'r dyddiad y derbyniwyd yr apêl ysgrifenedig. Efallai bydd yn ofynnol i'r pennaeth a'r sawl sy'n gwerthuso fynychu'r cyfarfod fel tystion.



- 2.2 Caiff Cadeirydd y Pwyllgor Cyflogau wahoddiad i arwain y pwyllgor Apêl trwy'r gweithdrefnau y cawsant eu harsylwi yn eu rhan hwy o'r broses pennu polisi cyflogau. Efallai bydd yn ofynnol i'r pennaeth a'r sawl sy'n gwerthuso fynychu'r cyfarfod fel tystion. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Apêl yn gwahodd y gweithiwr ac/neu eu cynrychiolydd i gyflwyno eu hachos.
- 2.3 Caiff pob plaid gyfle i ofyn cwestiynau yn dilyn cyflwyno achos/apeliadau.
- 2.4 Ar ôl i bob plaid gyflwyno eu hachos, bydd y Pwyllgor Apêl yna'n ystyried pob tystiolaeth yn y dirgel ac yn dod i benderfyniad. Bydd y Pwyllgor Apêl yn ysgrifennu at yr athro/athrawes i'w hysbysu o'u penderfyniad a'r rhesymau drosto. Bydd eraill sydd yn mynychu'r cyfarfod hefyd yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apêl yn derfynol.



## **MEINI PRAWF CODIAD CYFLOG YSTOD UWCH**

### **1.0 Priodweddau proffesiynol**

- 1.1 Cyfrannu'n sylweddol, ble bo'n briodol, i weithredu polisiau ac arfer man gwaith a hyrwyddo cydgyfrifoldeb am eu gweithredu.

### **2.0 Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol**

- 2.1 Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth helaeth o sut i ddefnyddio ac addasu ystod o strategaethau addysgu, dysgu a rheoli ymddygiad, yn cynnwys sut i bersonoli dysgu i roi cyfleoedd i bob dysgwr gyrraedd eu potensial.
- 2.2 Meddu ar wybodaeth helaeth a hyddysg o'r anghenion asesu a trefniadau ar gyfer y meysydd pynciau/cwricwlwm maent yn eu haddysgu, yn cynnwys y rheini sy'n gysylltiedig ag arholiadau cyhoeddus a cymwysterau.
- 2.3 Meddu ar y wybodaeth a'r dealltwriaeth ddiweddaraf o'r gwahanol fathau o gymwysterau a manylebau a'u haddasrwydd ar gyfer cwrdd ag anghenion dysgwyr.
- 2.4 Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth mwy datblygedig o'u pynciau/meysydd cwricwlwm ac addysgeg cysylltiedig yn cynnwys sut mae eu dysgu yn datblygu.
- 2.5 Meddu ar ddyfnder gwybodaeth a phrofiad digonol i allu cynghori ynghylch datblygiad a lles plant a phobl ifanc.

### **3.0 Sgiliau Proffesiynol**

- 3.1 Hyblygrwydd, bod yn greadigol ac yn gallu cynllunio dilyniannau dysgu o fewn gwersi ac ar draws gwersi sy'n effeithiol ac yn gyson yn cwrdd â nodau dysgu ac anghenion dysgwyr ac sy'n integreiddio datblygiadau diweddar, yn cynnwys y rheini sy'n perthyn i wybodaeth o bwnc/cwricwlwm.
- 3.2 Meddu ar sgiliau dysgu sy'n arwain at i ddysgwyr gyflawni'n dda o gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol, gan wneud cynnydd cystal â, neu well na, dysgwyr tebyg yn genedlaethol.
- 3.3 Hybu cydweithrediad a gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm.
- 3.4 Cyfrannu tuag at ddatblygiad proffesiynol cydweithwyr trwy hyfforddi a mentora, gan ddangos arfer effeithiol, a darparu cyngor ac adborth.





## Atodiad 3

### FFURFLEN GAIS YSTOD CYFLOG UWCH

Manylion Athro/Athrawes:

Enw:

Swydd

Manylion RhP/Gwerthuso:

Blynyddoedd a gwmpesir gan ddatganiadau cynllunio/adolygu

Ysgolion a gwmpesir gan ddatganiadau cynllunio/adolygu

Datganiad:

Rwyf yn cadarnhau ar ddyddiad y cais hwn am asesiad i groesi'r trothwy, fy mod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac rwyf yn cyflwyno datganiadau cynllunio ac adolygu rheoli perfformiad/gwerthuso sydd yn cwmpasu'r cyfnod perthnasol.

Llofnod yr ymgeisydd: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_



## **Atodiad 4**

### **STRWYTHUR STAFFIO YSGOL A GWERTHOEDD CYFLOG**

*[Mewnosod strwythur staffio a gwerthoedd cyflog ar gyfer yr ysgol]*